

Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth, Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

16.11.2023

Ymddiheuriadau:

Kath Davies (Amgueddfa Cymru), Esther Roberts (Amgueddfa Cymru), Naomi Jones (Parc Cenedlaethol), Gary Robinson (Prifysgol Bangor), Gwyneth Hughes (Cyngor Gwynedd).

Yn bresennol:

Yr Arglwydd Dafydd Wigley (Cadeirydd), y Cyng. Nia Jeffreys, Kate Roberts (Cadw), Ashley Batten (Cadw), Michael Bewick (JW Greaves), Elen Roberts (Amgueddfa Cymru), Ceri Williams (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Dafydd Gwyn (Govannon), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), Roland Wyn Evans (Cyngor Gwynedd), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Tom Simone (Cyngor Gwynedd), Lucy Thomas (Cyngor Gwynedd), Dan Amor (Cyngor Gwynedd), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd, Zoom), Sian Rees (ICOMOS, Zoom).

<p>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodwyd yr ymddiheuriadau, croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd. 	
<p>Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi</p> <ul style="list-style-type: none"> Panel dehongli, Abergynolwyn. mater wedi'i gau Adolygiad o waith academiaidd sy'n ymwneud â STyB, Prifysgol Bangor. Mae aelodau perthnasol o'r bwrdd ac is-grŵp cadwraeth wedi trafod y prosiect yn anffurfiol. Is-grŵp Addysg a Dysgu: i'w drafod yng nghyfarfod nesaf yr Is-grŵp Buddion 	<p>DA: i'w ychwanegu at agenda nesaf y grŵp Buddion</p>
<p>Diweddariad STyB</p> <p>Is-Grŵp Cadwraeth</p> <ul style="list-style-type: none"> Bydd y cyfarfod Cadwraeth nesaf yn gynnar yn y flwyddyn newydd, gyda ffocws ar yr amgylchedd adeiledig. ICOMOS, golygfeydd allweddol: i'w blaenoriaethu yn ystod y cyfarfod Cadwraeth dilynol. Gallai Sian Rees wedyn, fel y cynrychiolydd ICOMOS, gael ei gwahodd i'r cyfarfod dilynol. Mae angen i ni sicrhau fod ein mecanwaith yn monitro'r effaith ar osodiadau ond ddim yn ein cyfyngu. Mae golygfeydd allweddol yn berthnasol i STyB y Cestyll, a oes modd i ni weithredu'r egwyddorion yn STyB y Tirwedd Llechi. Mae angen i ni ystyried golygfeydd allweddol. Mae rhyngweledd yn elfen bwysig o'r STyB. 	

- Pryderon o ran aneddiadau'r STyB, yn deall yr oedi mewn gweithgareddau ond ni ddylem roi'r gorau iddo'n gyfan gwbl.
- Mae angen i olygfeydd allweddol gael eu hymgorffori i'r broses gynllunio. Gellid monitro faint o benderfyniadau cynllunio sydd wedi ystyried golygfeydd allweddol / effaith ar STyB. Ond gall un olygfa olygu pethau gwahanol i bobl wahanol.
- Rydym angen methodoleg gadarn y gallwn ei defnyddio wrth adrodd yn ôl i UNESCO.
- A ydym yn asesu effaith olygfeydd allweddol yn effeithiol, oes yna unrhyw fylchau? Mae angen i ni 'dynnu ynghyd', cytunodd pawb mai dyma'r ffordd ymlaen.
Golygfeydd allweddol i barhau'n eitem fyw ar raglen y grŵp Cadwraeth.
- Mae sesiynau cyngor anffurfiol wedi bod yn cael eu cynnal, gyda ffocws ar brosiectau LUF ym Mharc Padarn.
- Oedi ar y **gwaith dynodi** – prosiectau cadwraeth a datblygu yn mynd â rhan fywaf o amser AB.
- Oedi ar **Gynlluniau Rheoli Lleol** - er ei fod yn ddefnyddiol cyn arysgrifo, roedd adborth yn awgrymu nad ydynt bob amser yn cwrdd ag anghenion tirlfeddianwyr, ac nid ydynt yn ddogfennau byw.
- Gallem gyfeirio at yr cynlluniau rheoli lleol pan ofynnir, pan fod yna angen brys.
- **Diweddariad dynodiad:** bydd Dinorwig yn un ardal ddynodedig fawr yn hytrach na chyfres o ardaloedd llai. Bydd hyn yn digwydd yn fuan. Nid yw'n bosib rhuthro'r broses oherwydd gallai hyn arwain at broblemau yn y dyfodol (e.e. adolygu ffin yr ardal ddynodedig).
- Roedd Zipworld yn hapus gyda'r syniad o Gynllun Rheoli Lleol.
- Awgrymwyd y dylid cysylltu â Zipworld gyda'r bwriad o beilota fformat Gynllun Rheoli Lleol newydd a byddai dull rhagweithiol gan dirfeddianwyr yn cael ei flaenoriaethu.
- Gallem ddefnyddio'r cytundeb partneriaeth treftadaeth os bydd angen. O fudd pan fydd angen cynnal a chadw ased yn barhaus, y byddai'n synhwyrol mewn egwyddor, os fydd yn cael ei weithredu'n gywir.
- Cytunwyd bod prif gynllun / gweledigaeth yn syniad da a chyfeiriodd at gynlluniau creu lleoedd. A oedd modd annog Zipworld i wneud mwy o gyswllt gyda chynghorwyr yr ardal?

DA: i'w ychwanegu at raglen nesaf y grŵp Buddion

Is-Grŵp Buddion

- A oes angen trafodaeth ar ddatgan buddiant o ran Cyllid y Bwrdd Uchelgais ar gyfer Llechwedd? Nid yw'r Bwrdd yn rhagweld unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau ar hyn o bryd.
- Sesiynau cyngor cynllunio anffurfiol wedi bod yn fuddiol i'r cyfranogwyr, ffordd dda o ddod â'r grwpiau Cadwraeth a Buddion ynghyd.
- Digwyddiad busnes wedi'i drefnu ar gyfer y gwanwyn (gweithio gyda Swyddog Ymgysylltu Busnesau Lleol CG).
- Mae angen cyfarfod â CG am dwristiaeth, ond capasiti yn parhau i fod yn broblem.
- Hwb, Blaenau Ffestiniog - grŵp partneriaeth da yn dod ynghyd, cymysgedd dda o'r sectorau preifat a chyhoeddus sy'n edrych i gomisiynu gwerthusiad opsiynau ar gyfer creu Hwb Dehongli STyB.
- Cynllun Rheoli Thema 5 (Dysgu, Addysg) - yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf yr is-grŵp Buddion.

Sesiynau cyngor anffurfiol

- Y rhain yn digwydd cyn y broses gynllunio ffurfiol. Tri chyfarfod ers i ni gyfarfod ddiwethaf. Teams yn parhau ar gael ar gyfer prosiectau LUF. Mae angen i ni sicrhau bod yr holl bartïon yn ymgysylltu mewn trafodaethau, dull mwy cydlynol i gyfarfodydd. Mae angen mwy o gydlynu. Ystyried cysondeb profiad i ymwelwyr, taith ymwelwyr.
- Mae'r Amgueddfa angen cynnal trafodaeth gyda thenantiaid Gwynedd. Byddai Rheilffordd Llyn Padarn yn hoffi mwy o gyfranogiad yn y broses. **Gwahodd EC i gyfarfodydd y dyfodol.**
- Rydym nawr mewn sefyllfa well i esbonio natur y prosiect a rôl Cyngor Gwynedd oddi mewn iddo. Mae angen i ni sicrhau bod cynghorau cymunedol yn cael eu cynrychioli'n well yn y cyfarfodydd hyn.
- Mae angen i ni ddod â thenantiaid Gwynedd i'r drafodaeth, mae angen i ni sicrhau bod rhan-ddeiliaid yn teimlo'n rhan o'r broses.
- Y cyfnod ymgynghori fydd yn digwydd nesaf. Prosiect yn gwneud cynnydd. Rydym yn ymwybodol o'r hyn y gallem fwrw ymlaen gydag ef.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod prosiectau gwahanol yn dod at ei gilydd.
- Os oes angen eglurdeb pellach, ewch i'r afael â hyn fel mater o frys, cyn bod y broses gynllunio yn dechrau'n ffurfiol.
- Mae'n bwysig bod y materion hyn yn cael sylw ac nad ydym yn rhedeg allan o amser.
- Mae'r ysbyty yn rhan bwysig o'r stori ac yn rhan o'r cynllun yn gyffredinol.
- Cytunwyd i gadw golwg ar gynnydd y cyllid (LUF, Loteri ac ati)
- Sut ydym ni'n hysbysu cymunedau am y gwahaniaeth y mae'r amryw raglenni hyn yn ei wneud i'r cymunedau? CG: bydd hyn yn ffurfio rhan o waith y tîm ar Dwristiaeth Gynaliadwy – effaith, a yw cymunedau'n teimlo effeithiau'r prosiectau?

ER: gwahodd EC

Cyllid

- Diweddarodd ar **brosiectau Llewyrch o'r Llechi (LUF)**
- Yn ystod sesiynau cyngor cynllunio anffurfiol, y byddai'n fuddiol rhoi mwy o amser i drafod problemau (Parc Padarn).
- Dyfarnwyd y tendr celf gyhoeddus i Lafan.
- Dyffryn Ogwen: gwaith wedi dechrau ym Mhorth Penrhyn ar y gwelliannau i Lôn Las Ogwen. Hen Bost: disgwylir i'r gwaith gychwyn ym mis Ebrill. Neuadd Ogwen: gwaith ynysu sŵn bron a gorffen.
- Blaenau Ffestiniog: penderfyniad cynllunio (Antur Stiniog): ddiwedd mis Tachwedd.
- Rydym yn cefnogi celf gyhoeddus ond angen ymgysylltu cymunedol effeithiol.
- Heb ei gadarnhau eto ond mae cyfle i ddatgan ein achos am estyniad LUF.
- Diweddarodd ar **brosiectau'r Loteri.**
- Gweithgareddau peilot y Rhaglen Llesiant yn llwyddiant mawr.
- Mae ein amryfal gomisiynau yn gwneud cynnydd da.
- **Angen i'r grŵp hwn gymeradwyo cais nesaf y Loteri cyn iddo gael ei gyflwyno.**
- Angen hefyd am lythyrau'n Cefnogi'r cais (partneriaid).
- Bydd cadeiryddion Grwpiau STyB yn cadarnhau'r cais a'r dogfennau terfynol.
- **SPF:** cadarnhau cefnogaeth ar gyfer prosiectau yn Nhywyn, Porthmadog, Penygroes.

LT: cylchredeg papurau Grwpiau a chadeiryddion: i gymeradwyo'r cyflwyniad

<p>Unrhyw Fater Arall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Economi Twristiaeth Gynaliadwy: strategaeth weithredol yn ei lle erbyn mis Chwefror - byddwn yn trafod hyn yn ein cyfarfod nesaf. • Strategaeth Gyfathrebu Llechi Cymru: agosáu at gael ei chwblhau. • Gorffen a chyflwyno'r polisi cyfryngau cymdeithasol. 	<p>DA: gorffen y polisi cyfryngau cymdeithasol</p>
<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <ul style="list-style-type: none"> • 2 Chwefror 2024. 	